Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddiad 2023 — Rheoli proses amhleidiol a thryloyw

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Noddir gan Llywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Adolygiad Buddsoddiad 2023 – Rheoli proses amhleidiol a thryloyw

Mae'r ffordd rydym yn ymgysylltu a chyfathrebu â'r sector yn ystod y cyfnod hwn yn allweddol er mwyn gwireddu amcanion yr Adolygiad Buddsoddi ac er mwyn datblygu cytundebau ariannu aml-flwyddyn sy'n cynrychioli amrywiaeth y grwpiau a'r cymunedau ledled Cymru.

Mae'n hanfodol felly ein bod yn sicrhau bod y broses a fabwysiadwn ar gyfer cynnal yr Adolygiad Buddsoddi yn deg, yn dryloyw, yn gyfiawn ac yn:

- Sicrhau bod negeseuon ac amcanion allweddol yr Adolygiad Buddsoddi yn hygyrch i bawb, ac yn cael eu cyfleu, yn glir ac yn gyson
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael i ymgeiswyr posib, eu bod yn medru cyrchu'r wybodaeth, a chynnal deialog gyda ni ynglŷn â'r negeseuon allweddol hyn, yn cynnwys drwy ddeunydd wedi ei gyhoeddi a thrwy atebion a gyhoeddir i gwestiynau a dderbynnir
- Sicrhau bod ein strategaeth gyfathrebu a'n proses ymgeisio ddim yn manteisio sefydliadau y mae gennym berthynas â hwy eisoes, gan gynnwys aelodau presennol y Portffolio neu'r rhai yr ydym wedi'u hariannu drwy'r Loteri nac yn rhoi'r sefydliadau hynny nad ydynt wedi'u hariannu dan anfantais chwaith
- Sicrhau bod ein cefnogaeth i bob ymgeisydd posib yn gyson, yn amserol a ddim yn gwahaniaethu

Mae gennym ganllawiau clir ar sut rydym yn rheoli buddiannau partïon cysylltiedig yn ein Polisi Cofrestru a Datgan Buddiannau cyhoeddedig, yn enwedig o ran cymhwyso'r rhain mewn cyfarfodydd. Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i Aelodau'r Cyngor, Aelodau (gan gynnwys Swyddogion Cyswllt) a staff.

Mae'r canllawiau canlynol yn ategu'r Polisi hwn ac yn ymwneud â rheoli ceisiadau gan sefydliadau am gyngor ac arweiniad yn ystod cyfnod yr Adolygiad Buddsoddi, er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, yn y cyfnod yn arwain at y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Byddai'r camau a gymerwn i gyfathrebu ac ymgysylltu ag ymgeiswyr posibl yn wahanol yng nghyfnodau allweddol y broses a chânt eu crynhoi ar y dudalen nesaf:

| | |
|---|---|
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus Gor – 10 Hyd 2022** | • Gwybodaeth ar yr adeg hon yn hysbys i'r cyhoedd ac ar gael i bawb.<br>• Hyrwyddo'r Adolygiad Buddsoddiad, sgwrsio â sefydliadau ar sail y wybodaeth a gyhoeddwyd ac annog y sector i ymateb i'r ymgynghoriad er mwyn hysbysu ein dynesiad terfynol.<br>• Defnyddio cwestiynau ac atebion a dderbynir trwy gyfeiriad e-bost pwrpasol er mwyn rhannu gwybodaeth ychwanegol sy'n dod i'r fei o ganlyniad i sgyrsiau a chwestiynau unigol.<br>• Datganiadau buddiant yn cael eu nodi ond ddim yn gwahardd ymwneud â'r broses. |
| **Fersiynau terfynol i'w paratoi 11 Hyd – 4 Tach 2022** | • Cau'r cyfnod ymgynghori, Cylchoedd Gorchwyl a'r amcanion ar gyfer yr Adolygiad yn dod i fwcwl wedi cymeradwyaeth y Cyngor.<br>• Ni fydd cynnwys y fersiwn terfynol yn hysbys i'r cyhoedd tan iddynt gael eu cyhoeddi yn dilyn cyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.<br>• Peidwch â cahel sgyrsiau yn benodol ynghylch yr Adolygiad Buddsoddi heblaw am gyfeirio ymholiadau'n ôl at y papur yr ymgynghorir arno a gyhoeddwyd yn barod.<br>• Bydd cyhoeddiadau buddiannau yn cael eu nodi yng nghyfarfod Tachwedd y Cyngor, ond gan y bydd ganddo swyddogaeth allweddol o ran pennu fersiynau terfynol, gall y Cadeirydd benderfynu nad yw'n achos eithrio, gan y bydd y drafodaeth ynghylch telerau terfynol yr Adolygiad, a ddim yn ymwneud ag unrhyw gais penodol, a bydd y fersiynau terfynol yn cael eu cyhoeddi'n fuan wedyn.<br>• Er mwyn sicrhau tegwch, ni ddylid rhyddhau gwybodaeth yn allanol cyn, ynteu'n deillio o gyfarfod y Cyngor, tan iddo gael ei gyhoeddi'n swyddogol. |
| **Lansio fersiynau terfynol Tach – Rhag 2022** | • Fersiynau terfynol yn gyhoeddus yn dilyn cyfarfod 11 Tachwedd y Cyngor.<br>• Gall swyddogion hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio, ac ymateb i gwestiynau cyffredinol trwy gyfeirio at gynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd.<br>• Dylai swyddogion fod yn glir yn ystod sgyrsiau gydag ymgeiswyr posib bod y cyfrifoldeb dros benderfynu pa un ai i ymgeisio i'r Adolygiad Buddsoddi yn fater iddyn nhw yn llwyr. |
| **Agor ceisiadau / Dyddiad cau Ion 2023 – Mawrth 2023** | • Dylai swyddogion ac aelodau'r Cyngor fod yn ofalus wrth gael sgyrsiau a chyfathrebu gyda sefydliadau parthed yr Adolygiad Buddsoddiad nad ydynt yn cael eu tynnu i mewn i sgyrsiau a allai gael eu dehongli fel cyngor i unigolion parthed unrhyw gais.<br>• Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau allanol at y canllawiau terfynol a'r cwestiynau ac atebion cyhoeddedig.<br>• Bydd angen i Ddatganiadau diddordeb ar yr adeg hon olygu eithrio Swyddogion neu aelodau'r Cyngor sydd â gwerthdaro buddiannau o ran materion yn ymwneud â'r Adolygiad Buddsoddiad, er mneyn sicrhau bod y broses ymgeisoo yn deg a thryloyw ar gyfer pob ymgeisydd posib. |
| **Asesiadau Ebrill – Gorff 2023** | • Yn debyg i'r cyfnod Lawnsio Ymgeisio uchod - dim sgyrsiau allanol yn benodol am geisiadau'r Adolygiad Buddsoddiad a phob ymholiad i'w cyfeirio at y wybodaeth a gyhoeddwyd.<br>• Ystyriaethau Datganiadau Diddordeb i'w gweithredu gan Swyddogion ac unrhyw bartion eraill sydd ynglŷn â'r broses benderfynu (e.e. Cymdeithion) a, lle bo 'na wrthdaro wedi ei nodi, ni ddylai'r unigolyn hwnnw fod yn rhan o'r elfen honno o'r broses nac yn y cyfarfod penodol hwnnw. |
| **Wedi cyfarfod Cyngor Gorff 2023** | • Penderfyniadau mewn egwyddor y Cyngor i'w cyhoeddi.<br>• Y broses apêl i'w lansio a'i goruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes (DFBS) yn annibynol ar Fwrdd Prosiect yr Adolygiad Buddsoddiad.<br>• Ymholiadau a chwestiynau parthed apelio i'w cyfeirio at DFBS. |